# Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr

## Adroddiad yr Ail Flwyddyn

### Medi 2016 – Awst 2017

ARIANNWYD GAN GWYNT Y MÔR • FUNDED BY GWYNT Y MÔR



**Wedi ei lleoli yn y gymuned, ar gyfer y gymuned ac yn cael ei rhedeg gan y gymuned**

www.gwyntymorfund.cymru

innogy | SWM Stadtwerke München | MACQUARIE | Green Investment Group | SIEMENS Gamesa RENEWABLE ENERGY


# Y Gronfa

Bob blwyddyn mae Fferm Wynt Alltraeth Gwynt y Môr (GYM) yn darparu cronfa gymunedol y bydd ei chyfanswm yn werth dros £19 miliwn yn ystod oes y prosiect. Ei phwynt gwerthu unigryw yw ei hethos gwirioneddol gymunedol. Mae'n gyllid hyblyg, sydd wedi ei leoli yn y gymuned, ar gyfer y gymuned, ac sy'n cael ei redeg gan y gymuned.

Mae'r gronfa yn gweithredu o fewn fframwaith llywodraethu a sefydlwyd yn dilyn ymgynghori rhanbarthol helaeth gan innogy, y cwmni a adeiladodd y fferm wynt ar y môr ac sy'n ei rhedeg. Mae'r fframwaith hwn yn nodi tair thema allweddol y gronfa, pwy sy'n gallu gwneud cais a sut y gwneir penderfyniadau ynghylch dosbarthu grantiau.

Mae'r gronfa yn cael ei gweinyddu yn annibynnol ar GYM gan Cefnogaeth Cymunedol a Gwirfoddal Conwy (CVSC) gyda chefnogaeth gan Gynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych a Sir y Fflint. Gwneir yr holl benderfyniadau gan banel annibynnol o wirfoddolwyr o bob rhan o'r ardal fuddiannau.

## Yn gweithio gyda chymunedau ar yr arfordir yng Nghonwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint.






Llun i ddathlu agor cronfa GYM yn 2015.

Mae'r gronfa wedi gweithio gyda grwpiau cymunedol gwych eleni. Roedd ehangder a chwmpas y prosiectau a gefnogwyd yn aruthrol ac yn gwneud inni deimlo'n wylaidd. O ddarparu prydau maethlon am ddim i'n plant mwyaf anghenus yn ystod gwyliau ysgol, gwella rhandiroedd cymunedol ac felly annog ffordd fwy iach o fyw, ariannu digwyddiadau sy'n denu rhagor o ymwelwyr i'r ardal i gynorthwyo pobl ifanc tra bod rhiant yn cael triniaeth am ganser.

Cafwyd uchafbwyntiau gwirioneddol:

- Defnyddiwyd cyllid GYM i ddatgloi £1.7 miliwn o gyllid cyfatebol ychwanegol;
- Mae cronfa GYM wedi rhoi grwpiau mewn cysylltiad â'i gilydd ac o ganlyniad mae llawer mwy o grwpiau yn gweithio mewn partneriaeth gan ddatblygu ffordd fwy cydgysylltiedig o fynd ati i wella ein cymunedau;
- Mae dau brosiect a sefydlwyd yn sgil cyllid GYM wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer gwobrau cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Cynhaliwyd digwyddiad i ddathlu ein blwyddyn lawn gyntaf o weithredu. Daeth dros 100 o westeion o lu o brosiectau llwyddiannus ledled y Gogledd ynghyd i rannu syniadau ac i arddangos yr hyn yr oeddent wedi'i gyflawni.

Yr her fwyaf eleni fu'r gystadleuaeth gynyddol gan gyrff sy'n chwilio am gyllid. Mae hyn wedi creu amgylchedd anodd i'n panel grantiau gwirfoddol weithredu ynddo, a bu'n rhaid iddynt wneud penderfyniadau anodd. Gwyddom y bydd hyn yn parhau i fod yn her allweddol yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod, ac rydym yn manteisio i'r eithaf ar hyblygrwydd y cyllid er mwyn sicrhau bod strwythur y gronfa yn addas ar gyfer y diben.

Hoffai'r ddwy ohonom ddiolch o galon i'r holl hyrwyddwyr cymunedol llawn ysbrydoliaeth sy'n gweithio'n ddiflino i sicrhau y gall cyllid GYM greu'r effaith fwyaf bosibl. Ni fyddai dim o'r hyn y mae'r gronfa wedi'i gyflawni wedi bod yn bosibl heb eich cymorth, eich amser, eich egni a'ch brwdfrydedd.

**Katy Woodington**
Uwch Swyddog Buddsoddi Cymunedol,
Innogy renewables UK Cyf

**Wendy Jones**
Prif Swyddog Gweithredol,
Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy

## Beth ydym ni wedi ei gyflawni yn 2016/17?

**Cyfanswm y cyllid cyfatebol a gafodd ei sicrhau:** £1.7 miliwn

**Nifer y prosiectau a gefnogwyd:** 36

**Nifer y swyddi a grëwyd:** 32.5

**Nifer y swyddi a ddiogelwyd:** 73.5

**Nifer yr elusennau a gefnogwyd:** 16

**Cyfanswm y cyllid a gafodd ei ymrwymo:** £892,163.59

**Nifer y mentrau cymdeithasol a gefnogwyd:** 4

**Nifer y grwpiau cymunedol a gefnogwyd:** 25

**Nifer yr ymwelwyr ychwanegol a ddenwyd i ddigwyddiadau:** 78,700

## Cyllideb

Mae gan CVSC gontract i weinyddu cronfa GYM. Mae'r holl arian wedi'i glustnodi i'w ddefnyddio i fynd i'r afael â'r themâu o fewn yr ardal fuddiannau. Mae ffi weinyddu wedi ei chynnwys sy'n cwmpasu costau gweinyddol y gronfa, a oedd yn cynnwys cyflogi Rheolwr Rhaglen llawn-amser yn ogystal â'r cymorth gweinyddol a chyllidol angenrheidiol.

**Y GRONFA**

Y Gronfa Gymunedol a dderbyniwyd gan Fferm Wynt ar y Môr GYM Cyf.: **£623,337.22**
Ffioedd gweinyddol gan Fferm Wynt ar y Môr GYM Cyf.: **£58.000.00**

**GRANTIAU A DDYFARNWYD**

| | |
|---|---|
| North Wales Super Kids | £25,000.00 |
| Twrnamaint Conwy | £25,000.00 |
| Y Bartneriaeth Awyr-Agored | £150,000.00 |
| Cymdeithas Gymunedol Tre Cwm | £49,023.75 |
| Benefits Advice Shop | £73,873.48 |
| Cyswllt Conwy | £117,823.00 |
| Urdd Gobaith Cymru | £74,470.00 |
| Clwb Rotari Prestatyn | £6,100.00 |
| Grŵp Gyrwyr Safon Uwch Gogledd Cymru | £8,940.00 |
| Neuadd Goffa Trelawnyd Pwyllgor Rheoli | £24,779.50 |
| CBC Gwledd Conwy Feast | £27,000.00 |
| Cadetiaid Awyr yr Awyrlu Brenhinol | |
| Sgwadron 271 Bae Colwyn | £9,999.00 |
| Cartrefi Conwy - | |
| Prosiect Amgylcheddol Tre Cwm | £65,000.00 |
| Grŵp Hanes Deganwy | £2,000.00 |
| Clwb Cyfeillgarwch Deganwy | £1,500.00 |
| Grŵp Cynefin | £100,000.00 |
| Cyfeillion Talacre | £554.98 |
| Ffederasiwn Genweirwyr | |
| Môr Cymru (WFSA) | £9,969.00 |
| Clwb Hwylio Llandudno | £9,995.00 |
| Clwb yr Efail | £9,999.00 |
| Dyddio Hen Dai Cymreig | £5,000.00 |
| Cymdeithas Rhandiroedd Llandudno | £6,622.00 |
| Clwb Rygbi Llandudno | £9,999.00 |
| Menter Gydweithredol Crest | £9,999.00 |
| Mind Aberconwy | £9,949.00 |
| Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid | £6,000.00 |
| Ffair Nadolig Llandudno | £2,000.00 |
| CAB Conwy Gallu Ariannol | £9,777.88 |
| Co-options | £5,000.00 |
| Hope Restored | £3,850.00 |
| Chwaraeon Conwy | £5,940.00 |
| Llyfrgell Bae Penrhyn | £5,452.00 |
| Ymddiriedolaeth Osbourne | £2,760.00 |
| CBC Cymunedau G2G | £8,560.00 |
| Strategaeth Dinas y Rhyl | £7,000.00 |
| Grŵp Sgowtiaid y Gogarth | £3,228.00 |
| **CYFANSWM:** | **£892,163.59** |

# Fferm Wynt Alltraeth Gwynt y Môr

Mae Fferm Wynt Ar y Môr GYM wedi lleoli oddi ar arfordir y Gogledd. Yn ystod y cyfnod adeiladu o ddwy flynedd, gwariwyd £660 miliwn gyda chwmnïau oedd wedi'u lleoli yn y DU, gyda dros £90 miliwn yn cael ei wario yng Nghymru, a arweiniodd at greu tua 700 o swyddi yng Nghymru. Mae 100 o swyddi crefftus, tymor-hir wedi'u creu ar gyfer gweithrediadau'r fferm wynt a'i chynnal a'i chadw. Mae'r tîm wedi'u lleoli ym Mhorthladd Mostyn ac maent wedi helpu i feithrin talent newydd, gan dderbyn prentisiaid cymwys a chefnogi'r rheini sydd ar Raglen Prentisiaid Tyrbinau Gwynt arobryn innogy.

Mae cyfanswm buddsoddiad GYM dros £2 biliwn, ac mae wedi'i rannu ar hyn o bryd rhwng innogy SE (50%); Stadwerke München GmBH, cwmni cyfleustodau dinesig Munich (30%); Cronfa Gwynt Alltraeth Grŵp Buddsoddi Gwyrdd (10%) a Siemens (10%).



Fferm Wynt ar y Môr Gwynt y Môr
Diolch i Yvette Photography am y ffotograffiaeth



Gweithredu Cymunedol Abergele

# Thema 1: Creu cymunedau cryf, cydlynus a chynaliadwy

Mae prosiectau sy'n dwyn pobl ynghyd, yn uno gwahanol genedlaethau, cymunedau ethnig a phobl o wahanol gefndiroedd cymdeithasol yn darparu buddiannau gwirioneddol gadarnhaol i gymunedau lleol.

**Cefnogwyd 25 o brosiectau dan y thema hon, ac mae gan nifer ohonynt fuddiannau mewn sawl maes. O'u hystyried ynghyd, amcangyfrifir y bydd y prosiectau hyn yn cyffwrdd â bywydau dros 76,000 o drigolion, â'r buddiolwr ieuengaf yn ddim ond teirblwydd oed a'r hynaf yn 87 mlwydd oed.**

## Gweithredu Cymunedol Abergele

Mae Gweithredu Cymunedol Abergele yn gweithio gyda phobl leol sydd wedi eu hallgáu oddi wrth gyfleoedd cymdeithasol, addysgol, economaidd a digidol y brif ffrwd, neu sydd mewn perygl o gael eu hallgáu. Mae GYM wedi eu galluogi i gyflogi swyddog llawn-amser i gydlynu'r prosiectau a'r cymorth cymunedol sy'n bodoli eisoes. Ymhlith y gweithgareddau y mae'r swyddog hwn wedi gallu eu cefnogi roedd:

- Darparu hyfforddiant TG sy'n cynorthwyo pobl i gynyddu eu sgiliau a chwilio am swyddi.
- Cydlynu 117 o oriau gwirfoddolwyr bob wythnos yn y banc bwyd, gan sicrhau bod cyflenwadau hanfodol yn cyrraedd y bobl sydd eu hangen fwyaf a gweini yn y caffi cymunedol.


Trigolion Prestatyn yn dysgu tyfu eu bwyd eu hunain

## Cyngor Tref Prestatyn

Syniad **Cyngor Tref Prestatyn** oedd datblygu rhandir a defnyddio gwasanaeth mentor garddwriaethol. Bellach mae'r mentor yn darparu hyfforddiant ac yn datblygu sgiliau trigolion sydd â diddordeb mewn dysgu o ble mae bwyd yn dod a sut i'w dyfu.


Neuadd Bentref Llysfaen wedi iddi gael ei hadnewyddu

## Neuadd Bentref Llysfaen

Roedd **Neuadd Bentref Llysfaen** wedi dechrau dadfeilio ac oherwydd bod yr insiwleiddio'n wael roedd adeiladwaith y neuadd wedi dirywio i'r fath raddau fel nad oedd yn bodloni safonau'r awdurdod lleol ar gyfer defnydd cyhoeddus, gan olygu bod cymuned wledig yn cael ei gadael heb adnodd lleol holl bwysig. Ariannodd GYM brosiect adnewyddu mawr a oedd yn cynnwys goleuadau newydd, offer diogelu rhag tân ac insiwleiddio newydd. Mae'r neuadd bellach yn datblygu'n ganolfan gymunedol brysur gyda rhestr gynyddol o weithgareddau cymdeithasol.



Mae gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg yn annog dysgu

## Yr Urdd

Mae'r **Urdd** fel mudiad yn cydnabod ei bod yn hynod o bwysig gallu cynnig cyfleoedd i blant, pobl ifanc a theuluoedd yn ein cymunedau allu byw bywydau llawn trwy gyfrwng y Gymraeg. Ond mae'r adnoddau'n brin. Ariannodd GYM Swyddog Datblygu Gweithgareddau Cymraeg i ddiwallu'r galw cynyddol ar yr Urdd i ddarparu gweithgareddau Cymraeg anffurfiol i ategu'r gwaith y mae'r mudiad yn ei wneud eisoes.

# Thema 2: Datblygu cymunedau ffyniannus, llawn menter a chanddynt dwf economaidd cryf

Mae buddsoddi mewn hyfforddiant a swyddi ar gyfer ein pobl ifanc a'n dyfodol yn holl bwysig ar gyfer cynaliadwyedd cymunedau'r Gogledd yn y tymor hir.

**Yn y ddwy flynedd fer ers y lansiad, mae GYM wedi cynorthwyo i ddiogelu 138 o swyddi a chreu 102 yn rhagor o swyddi newydd. Yn y 12 mis diwethaf yn unig, mae GYM wedi helpu dros 100 o bobl i ennill amrywiaeth o gymwysterau anffurfiol a rhai a gydnabyddir yn genedlaethol. Y tu hwnt i hyn, mae ein prosiectau wedi helpu i gynnal a chreu dros 1,000 o gyfleoedd i wirfoddoli, a llawer ohonynt yn cynnig profiadau dysgu newydd, yn datblygu sgiliau bywyd ac yn gwella cyfleoedd am gyflogaeth.**

## Prosiect y Bartneriaeth Awyr-Agored

Mae'r **Bartneriaeth Awyr-Agored** yn gydweithrediad 5 mlynedd rhwng y Bartneriaeth Awyr-Agored a Chymdeithas Dai Gogledd Cymru i ddarparu rhaglen wedi'i thargedu o weithgareddau awyr-agored er mwyn cynyddu cyfleoedd am gyflogaeth a chyfleoedd i wirfoddoli. Nod y prosiect yw cael gwared ar y rhwystrau rhag cymryd rhan i deuluoedd sydd ar incwm isel neu sydd heb unrhyw incwm, a darparu profiadau anturus o ansawdd uchel yn yr awyr-agored er mwyn cynyddu hyder, ysgogiad, iechyd a lles a gwella sgiliau gwaith hanfodol sy'n ofynnol gan gyflogwyr yn y sector awyr-agored.



Sesiwn beicio mynydd gyda'r Bartneriaeth Awyr-Agored

## Cymdeithas Gymunedol Tre Cwm

Yng **Nghymdeithas Gymunedol Tre Cwm** mae GYM yn cefnogi arloesi a ffyrdd newydd o weithio. Maent wedi creu bwyty yn arddull y 50au yn eu canolfan ac maent hefyd wedi gosod cegin fasnachol gwbl weithredol yno. Gyda chymorth GYM a chyllid cyfatebol gan Garfield Weston, Bernard Sunley a'r Loteri Fawr, bu iddynt gyflogi cogydd hyfforddi i oruchwylio'r bwyty ond yn bwysicach i gynnal cyrsiau arlwyo, dysgu anffurfiol a rhaglenni hyfforddi gwirfoddolwyr, gan greu 'amgylchedd parod i weithio' i drigolion sydd eisiau cael eu cyflogi yn y sector gwasanaethau twristiaeth – sy'n sector sydd ar dwf yn y Gogledd. Rhagwelir y bydd yr adnodd hyfforddi hirdymor hwn yn cynnig cyfleoedd gwych yn y dyfodol.

Yn ôl rheolwr y ganolfan, **"Wedi llwyddiant ein nosweithiau Eidalaidd a 'Fusion' Asiaidd, rydym yn cynnal ein profiad bwyta arbennig nesaf gyda'r cogydd Shaun Lynch er mwyn rhoi llwyfan i'w sgiliau ac i godi arian i gefnogi ein rhaglenni hyfforddi a datblygu".**

## Twrnamaint Conwy

Mae GYM wedi cefnogi digwyddiad amlwg ac unigryw yng Nghonwy, sef Twrnamaint Conwy. Digwyddiad canoloesol ydoedd a oedd yn cwmpasu tref gyfan Conwy ac yn cynnwys ymryson twrnamaint, pencampwriaethau cleddyfa, arddangosiadau saethyddiaeth ac ailgreadau hanesyddol/hanes byw, ynghyd â marchnad ganoloesol a oedd yn cynnwys ffair wlân, digrifweision, cantorion, cerddorion, diddanwyr stryd, chwedleuwyr, dreigiau a llawer mwy. Bu i'r prif ddigwyddiad ddenu 20,000 o bobl i Gonwy am y penwythnos.



Twrnamaint Conwy



Cyngor ar Ynni Gogledd Cymru yn rhannu gwybodaeth mewn gweithdy lleol


Cynyddu sgiliau a hyfforddiant Creu Menter

# Thema 3: Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb mewn cymunedau

Anfantais ac allgáu yw achosion sylfaenol llawer iawn o'r heriau y mae cymunedau yn eu hwynebu. Cafodd dros 500 o deuluoedd eu cynorthwyo i leihau heriau tlodi neu anghydraddoldeb.

**Yn sgil natur gymhleth rhai o'r materion, bu'n rhaid mynd ati gyda sawl asiantaeth, â'r trydydd sector a grwpiau elusennol yn gweithio ar y cyd â gwasanaethau statudol, gan gynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Cymunedol, ysgolion ac adrannau addysg, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a chwmnïau cyfleustodau i enwi dim ond rhai. Ymdrinnir ag anghenion cymhleth gan gynnwys dementia, awtistiaeth, salwch meddwl, problemau ymddygiad plant, cyfrifoldebau gofalu, unigrwydd, arwahanrwydd cymdeithasol, tlodi a thlodi tanwydd, canser, rheoli dyledion, digartrefedd ac anawsterau yn ymwneud ag oed.**

Sicrhawyd hefyd gyfanswm anferth o £511,453 mewn budd-daliadau yr oedd gan ein pobl fwyaf agored i niwed hawl i'w derbyn, ac mae un gymuned wedi lleihau ei phoblogaeth o bobl ddigartref bron i 80%.

Ni ellid cael dim yn well na'r datganiad dienw hwn i grynhoi sut mae'r gronfa yn gwneud gwahaniaeth yn yr ardal hon:

**"Roedd gen i gynifer o bethau yn troi yn fy mhen, allwn i ddim cysgu'r nos. Mae *** yn rhoi llawer iawn o gymorth imi. Roeddwn i'n gallu siarad gyda fy ngwirfoddolwr a gallaf drafod y pethau yr oedd arnaf eu hofn. Mae hi'n rhoi gobaith imi. Rwy'n gryfach oherwydd *** Diolch am roi rhywun inni sydd â gwir ddiddordeb ynom ac sy'n mwynhau gwneud pethau gyda ni."** (Dienw)

## Creu Menter

Mae **Creu Menter** yn fenter gymdeithasol sy'n is-gorff i Gymdeithas Dai Cartrefi Conwy ac fe'i sefydlwyd er mwyn ymateb i'r angen am sgiliau, hyfforddiant, cymorth a chyflogaeth i denantiaid y corff sy'n ddi-waith. Darparodd GYM arian er mwyn cyflogi mentor cynhwysiant cymdeithasol i ganfod tenantiaid a fyddai'n elwa o'u prosiectau ond na fyddent o bosibl, yn draddodiadol, yn ymwneud â hwy am amrywiaeth o resymau. Rhan gyntaf rôl y mentor cynhwysiant cymdeithasol oedd cefnogi trigolion i wirfoddoli o fewn y gymuned ac yna'r ail ran oedd datblygu pobl tuag at gyflogadwyedd gyda hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol yn ogystal â chynyddu hyder ac ysgogiad. Mae'r prosiect wedi arwain at sawl llwyddiant gwych.

## Canolfan Cyngor ar Ynni Gogledd Cymru

Mae **Canolfan Cyngor ar Ynni Gogledd Cymru** yn rhoi cyngor diduedd am ddim ar ynni i aelwydydd yn Sir y Fflint. Gwelwyd yn sgil profiad mai'r rhai sydd fwyaf o angen cymorth sydd, yn aml, leiaf tebygol o fynd i chwilio amdano. Mae tlodi tanwydd yn cael effaith anghyfrannol ar gymunedau gwledig, ond eto dyma'r cymunedau sydd anoddaf eu cyrraedd, yn draddodiadol. Nod y prosiect 'Hyb Cymunedol' a'r swyddog tlodi tanwydd arbenigol a ariannwyd gan GYM mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo yw cyrraedd aelwydydd o fewn yr ardaloedd gwledig hyn. Maent yn targedu'n arbennig y rheini sy'n byw mewn tlodi tanwydd ac/neu sy'n agored i niwed ac mewn angen. Maent yn canfod ffyrdd o leihau costau ynni a helpu i sicrhau cartrefi sy'n fforddiadwy i'w cynhesu trwy gyfrwng newidiadau mewn ymddygiad, gwelliannau i gartrefi a gwresogi a helpu pobl i newid tariff neu gyflenwr.

## Feed the Children

Bu i **Feed the Children** yn y Rhyl fwydo 150 o blant, yn ystod gwyliau'r ysgol, a fyddai wedi cael pryd ysgol am ddim fel arfer. Prynodd GYM y bwyd a bu gwirfoddolwyr wrthi'n gweithio'n galed yn paratoi a gweini bwyd er mwyn sicrhau nad yw'r plant yn llwglyd yn ystod y gwyliau ysgol.

# Gweddnewid

Dim ond dwy flynedd o'r rhaglen 25 mlynedd hon a fu hyd yma, ac mae Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr (GYM) eisoes yn creu ei gwaddol ei hun. Mae'r gronfa yn cynorthwyo i ysgwyddo baich y cyfrifoldeb am fynd i'r afael â heriau allweddol sy'n wynebu ein cymunedau arfordirol yn Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Chonwy. Mae'n hynod o gyffrous gweld y tyrbinau gwynt hyn nid yn unig yn creu trydan gwyrdd, glân ond hefyd yn darparu'r holl fuddiannau cadarnhaol a hirdymor hyn i gymunedau'r Gogledd.

Mae ein gwasanaethau dan bwysau yn barhaus, ac mae'r wasgfa'n parhau ar gyllid ar gyfer cyrff y trydydd sector a chyrff cymunedol. Roedd y galw am gyllideb cronfa GYM mor uchel y llynedd fel inni orfod ei chau i geisiadau newydd am gyfnod o amser. Pleser gennym bellach yw gallu ei hailagor, ac rydym wedi ail-lansio'r cynllun grantiau mawr, dros £10,000, gyda therfyn uchaf o £50,000. Bydd hyn o gymorth mawr i gefnogi ein grwpiau niferus yn y Gogledd, ac ar yr un pryd yn parhau i ddarparu hyd at dair blynedd o gyllid hyblyg ar gyfer rhaglenni strategol mwy hirdymor. Ein gobaith yw y bydd cyflwyno mesur capio ynghyd ag annog cytundeb cyllido tair blynedd graddedig yn annog gwell cynllunio gyda mwy o bwyslais ar gynaliadwyedd.

Er mwyn sicrhau'r cyllid uchaf posibl wrth symud ymlaen, ac i gyflawni cynnydd tymor hir ym meysydd themâu'r gronfa, bydd yn bwysicach nag erioed ein bod yn gweithio gyda'n gilydd er mwyn datblygu partneriaethau cryfach a sicrhau dull cydgysylltiedig o ariannu prosiectau. Ni fydd dim o hyn yn bosibl heb ymrwymiad ac ymroddiad gwirfoddolwyr cymunedol llawn ysbrydoliaeth a grwpiau a chyrff dynamig. Bydd cronfa GYM yn parhau i annog arloesi. Nid yw'n gyfyngedig, nac ynghlwm â biwrocratiaeth, a gall wneud pethau mewn ffordd wahanol. Mae hwn yn gyfle euraidd i feddwl am ffyrdd newydd o weithio a dulliau arloesol o ddatrys problemau a chefnogi ein cymunedau. Ychwanegaf hefyd fy niolch calonnog i aelodau'r panel am eu hymdrechion clodwiw trwy gydol y cyfnod adrodd hwn. Nid yw eu gwaith yn hawdd o bell ffordd.

Pe byddai rhywun yn gofyn inni ddisgrifio sut mae'r rhaglen hyd yma wedi gwneud inni deimlo, mae'n debyg y byddai llawer ohonom yn dewis y gair 'gwylaidd'. Mae ymroddiad ac ymrwymiad yr ychydig rai gwych ar ran cynifer o bobl yn gwneud imi deimlo'n wirioneddol wylaidd. Fel y dywedodd Walt Disney *"Gallwch ddylunio a chreu ac adeiladu'r lle mwyaf rhyfeddol yn y byd i gyd. Ond mae angen pobl i wireddu'r freuddwyd."*

**Yr wyf yn edrych ymlaen at y drydedd flwyddyn yn llawn disgwyliadau, ond hefyd yn llawn balchder am yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma.**

Neil Pringle
*Rheolwr Rhaglen Gwynt y Môr*

I ddysgu mwy am y gronfa a sut i wneud cais ewch i **www.gwyntymorfund.cymru**



@GwyntYMorCF

@gwyntymor

ARIANNWYD GAN GWYNT Y MÔR • FUNDED BY GWYNT Y MÔR

Fferm Wynt ar y Môr Gwynt y Môr
Diolch i Yvette Photography am y ffotograffiaeth